

Ewch i ucas.com/parents
am ragor o wybodaeth

UCAS

Canllaw Rhieni

Popeth mae angen ichi ei wybod ynghylch
taith eich plentyn i'r brifysgol neu'r goleg

2017



© UCAS 2016

Cedwir pob hawl.
Mae UCAS yn nod masnach cofrestredig.

Cofrestrir UCAS, cwmni a gyfyngir trwy warant, yng Nghymru a Lloegr a'r rhif yw: 2839815;
Rhif elusen gofrestrdig: 1024741 (Cymru a Lloegr) ac SC038598 (Yr Alban)

Cyfeirnod cyhoeddiad: MD-923

Rydym wedi gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau bod yr wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn yn gywir ar adeg ei chyhoeddi. Fodd bynnag, ni fyddwn yn derbyn unrhyw atebolrwydd am wallau, hepgoriadau na newidiadau i wybodaeth ers ei chyhoeddi.

Ble bynnag mae'n bosibl caiff unrhyw newidiadau eu diweddarau ar wefan UCAS (www.ucas.com).

Gellir lawriwytho copïau o'r cyhoeddiad hwn oddi ar www.ucas.com.

I gael gwybodaeth bellach ynghylch proses ymgeisio UCAS ar gyfer Israddedigion ewch i www.ucas.com.



AWGRYM: Cofrestrwch i dderbyn ein cylchlythyr misol ar gyfer rhieni – mae'n rhad ac am ddim a mae'n rhoi'r holl ddiweddariadau a gwybodaeth sydd arnoch eu hangen, gydag esboniadau amserol o'r broses ymgeisio. www.ucas.com/parentform

Cynnwys

Eich rhestr wirio taith UCAS	2
Dyddiadau allweddol ar gip	3
Beth yw UCAS?	4
Sut i dalu am y brifysgol	6
Ionawr 2016	
Cynllunio eu dyfodol	8
Mawrth i Fai 2016	
Sut allwch helpu ag ymchwilio i'w hopsiynau	10
Mehefin i Fedi 2016	
Sut i lenwi'r cais UCAS	12
Helpwch eich plentyn i ysgrifennu datganiad personol gwych	13
Pryd ddylent ymgeisio?	14
Ionawr i Fawrth 2017	
Taith cais	16
Beth sy'n digwydd pan dderbyniwn eu cais?	17
Chwefror i Fai 2017	
Ymateb i gynigion	18
Extra yn agor	19
Gorffennaf i Awst 2017	
Paratoi ar gyfer canlyniadau	20
Derbyn canlyniadau arholiadau	22
Clearing ac Adjustment	23
Paratoi ar gyfer y brifysgol	24
Adnoddau defnyddiol i'ch helpu	26

Ynglŷn â'r Canllaw ar gyfer Rhieni

Mae'r canllaw hwn ar gyfer unrhyw un sy'n cefnogi person ifanc i astudio mewn prifysgol neu goleg yn 2017, a mae'n cwmpasu'r camau allweddol ym mhroses ymgeisio UCAS ar gyfer Israddedigion. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, dysgwch sut i gysylltu yn www.ucas.com/contactus.

Eich rhestr wirio taith UCAS

A ydych mor barod ag y gallwch fod i gefnogi'ch mab neu ferch trwy daith eu cais? Defnyddiwch y rhestr wirio hwylus hon i wneud yn siŵr.

- **Cofrestrwch i dderbyn ein cylchlythyr misol ar gyfer rhieni** – mae'n rhad ac am ddim a mae'n rhoi'r holl ddiweddariadau a gwybodaeth sydd arnoch eu hangen, gydag esboniadau amserol o'r broses ymgeisio – www.ucas.com/parentform.
- **Ymgylfarwyddwch â'n gwefan** – mae gan www.ucas.com yr holl wybodaeth byddwch chi a'ch mab neu ferch ei hangen ar bob cam o'r daith ymgeisio.
- **Ymwelwch â diwrnodau agored prifysgolion a cholegau** – www.ucas.com/opendays.
- **Sicrhewch y gwyddoch pryd fydd angen i'ch mab neu ferch anfon eu cais** – www.ucas.com/whentoapply.
- **Gwiriwch pryd fydd angen iddynt ymateb i'w cynigion** – mae hyn yn amrywio yn ôl y cwrs/cyrsiau maent wedi ymgeisio iddynt a phryd fyddant yn derbyn penderfyniadau ar gyfer pob dewis.
- **Dysgwch pa gyllid a chymorth sydd ar gael** – gweler tudalen 6.
- **Deallwch sut mae Extra, Clearing, ac Adjustment yn gweithio** – gweler tudalennau 19 a 23.
- **Cefnogi ymgeisydd rhyngwladol?** Lawrlwythwch ein 'Canllaw rhyngwladol ynghylch israddedigion ar gyfer rhieni' yn www.ucas.com/parents.

Dyddiadau allweddol ar gip

2016

24 Mai: Apply Israddedigion UCAS – y system ymgeisio ar gyfer y rhai hynny sy'n ymgeisio i gyrsiau'n cychwyn yn 2017 – mae'n dod ar gael er mwyn cofrestru'n unig.

1 Medi: Gellir anfon ceisiadau wedi'u cwblhau at UCAS.

15 Hydref (18:00 amser y DU): Terfyn amser ar gyfer ceisiadau at brifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt, ac ar gyfer y mwyafrif o gyrsiau mewn meddygaeth, deintyddiaeth a meddygaeth / gwyddoniaeth filfeddygol.



AWGRYM: Yn aml mae ysgolion a cholegau'n gosod terfyn amser cynharach fel bod ganddynt ddigon o amser i wirio ceisiadau ac ychwanegu tystlythyrau, cyn anfon ceisiadau wedi'u cwblhau at UCAS.

Dylech gyngori eich mab neu ferch i wirio terfyn / au amser y cyrsiau maent yn cynnig amdanynt trwy fynd i search.ucas.com

Caiff ceisiadau a dderbynnir wedi'r terfynau amser eu hanfon at brifysgolion a cholegau, ond nid oes rhaid iddynt eu hystyried.

2017

15 Ionawr (18:00 amser y DU): Terfyn amser ar gyfer y mwyafrif o gyrsiau ar gyfer israddedigion.

25 Chwefror: Extra yn agor.

24 Mawrth (18:00 amser y DU): Terfyn amser ar gyfer ceisiadau i rai cyrsiau celf a dylunio.

30 Mehefin (18:00 amser y DU): Y dyddiad olaf ar gyfer derbyn ceisiadau. Caiff ceisiadau a dderbynnir wedi'r terfyn amser hwn eu trosglwyddo i Clearing fel mater o drefn (gweler tudalen 23).

4 Gorffennaf (18:00 amser y DU): Mae Extra yn cau.

5 Gorffennaf: Dangosir lleoedd gwag Clearing yn offeryn chwilio UCAS – search.ucas.com.

Yn gynnar ym mis Awst: Diwrnod canlyniadau SQA – dangosir lleoedd gwag yr Alban yn unig yn yr offeryn Clearing.

17 Awst: Diwrnod canlyniadau lefel A - dangosir holl lleoedd gwag Clearing yn yr offeryn chwilio.

20 Medi (18:00 amser y DU): Terfyn amser olaf ar gyfer cyrsiau'n cychwyn yn 2017.

Beth yw UCAS?

Rydym yn elusen sy'n prosesu ceisiadau i astudio cyrsiau llawn-amser mewn prifysgolion a cholegau yn y DU.

Fodd bynnag, nid ydym yn prosesu ceisiadau'n unig – ein nod yw helpu myfyrwyr i wneud dewisiadau deallus sy'n gywir iddynt hwy, trwy eu harwain trwy'r holl broses ymgeisio ar gyfer addysg uwch a'r tu hwnt. Er mwyn cefnogi hyn, rydym yn darparu ystod eang o wybodaeth a gwasanaethau gwerthfawr ar gyfer ymgeiswyr, eu rhieni, ac athrawon.

Gall eich mab neu ferch ddefnyddio www.ucas.com i ddysgu sut i gychwyn, ymchwilio eu hopsiynau, gwneud eu cais, dilyn gynydd. Mae gwybodaeth i chi'n arbennig yn www.ucas.com/parents, gan gynnwys manylion ynghylch y broses ymgeisio a digonedd o ganllawiau fideo defnyddiol.

Termau UCAS wedi'u hesbonio

Trwy gydol y broses ymgeisio, byddwch yn dod ar draws nifer o dermau efallai na fyddwch yn gyfarwydd â hwy. Ewch i www.ucas.com/ucas-terms-explained i ddysgu beth yw eu hystyr.



Sut i dalu am y brifysgol

Un o'r pryderon mwyaf ar gyfer myfyrwyr a'u rhieni yw'r gost o fynd i'r brifysgol – dyma ddatdrosiad o'r hyn fydd arnoch angen ei wybod ynghylch ffioedd, cyllid, ac ad-dalu.

Ffioedd dysgu

Gall eich plentyn dalu hyd at £9,000 y flwyddyn mewn ffioedd dysgu fel myfyriwr yn y DU, er gallai ffioedd godi â chwyddiant uwchben y ffigur hwn o 2017 ymlaen mewn rhai prifysgolion.

Nid oes angen talu ffioedd ymlaen llaw. Gall myfyrwyr wneud cais am fenthyciad ffioedd dysgu i dalu'r cyfan neu ran o'u ffioedd.

Oherwydd y ffordd mae'r system yn gweithio (gweler 'Ad-dalu'), bydd cymryd benthyciad eich hunan i dalu'r gost o ffioedd ac osgoi'ch plentyn yn mynd i ddyled yn fwy drud yn yr hir-dymor bron bob tro.

Costau byw

Yr ail fenthyciad gallant wneud cais amdano yw'r benthyciad cynhaliath, i helpu tuag at dreuliau byw tra'u bod yn y brifysgol, megis llety, bwyd, a deunyddiau ar gyfer y cwrs.

Mae'r swm maent yn gymwys i'w fenthyci'n dibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys ble byddant yn astudio ac incwm eich aelwyd. Bydd arnoch angen ddatgan yr wybodaeth hon er mwyn derbyn y swm mwyaf sydd ar gael.

Er enghraifft, os byddant yn byw i ffwrdd o'u cartref (y tu allan i Lundain), gallai benthyciad cynhaliath o hyd at £8,200 y flwyddyn fod ar gael ar gyfer aelwydydd yn ennill £25,000 y flwyddyn neu lai. Os ydych yn ennill mwy na hyn, bydd swm y benthyciad mae'ch plentyn yn gymwys amdano'n is.

Mae'n rhaid ad-dalu benthyciadau myfyrwyr wedi cwblhau'r cwrs, ac unwaith bod eich plentyn yn ennill mwy na chyflog penodol.

Cymorth ychwanegol

Diddymwyd grantiau yn 2015, ond mae cymorth ychwanegol ar gael o dan amgylchiadau penodol.

- **Ysgoloriaethau a bwrsariau** – fe'u cynigir ar y sylfaen o allu academaidd, yn dilyn prawf modd, neu am resymau eraill, er enghraifft, os oes gan eich plentyn anabledd.
- **Hawliadau ffioedd** – mae'r rhain yn lleihau ffioedd dysgu, naill ai eu hunain, neu fel pecyn ehangach o gymorth â bwrsari.
- **Cronfeydd caledi** – gall y rhain helpu os ydych yn brwydro'n ariannol naill ai cyn neu yn ystod y cyfnod yn y brifysgol.

Mae lleoliad o bwys

Yn bennaf rydym wedi cwmpasu'r system yn Lloegr, ond os ydych yn byw rhywle arall yn y DU, bydd y ffioedd, benthyciadau, modd ad-dalu, a chostau byw'n wahanol. Os yw eich mab neu ferch yn byw yn:

- **Lloegr**, gallent dalu oddeutu £9,000 mewn ffioedd dysgu. Gwnewch gais i Student Finance England yn www.gov.uk/student-finance
- **Yr Alban**, ac yn mynd i brifysgol yn yr Alban, ni fyddant yn talu ffioedd dysgu. Gwnewch gais am fenthyciadau cynhaliath trwy'r Student Awards Agency for Scotland yn www.saas.gov.uk
- **Cymru**, ac yn mynd i brifysgol yng Nghymru, byddant yn talu £3,810 mewn ffioedd a chael grant ar gyfer ffioedd dysgu i dalu am y gweddill. Gwnewch gais i Gyllid Myfyrwyr Cymru yn www.studentfinancewales.co.uk
- **Gogledd Iwerddon** ac yn astudio yng Ngogledd Iwerddon hefyd, byddant yn talu £3,805 mewn ffioedd. Gwnewch gais i Student Finance NI yn www.studentfinancenl.co.uk

Ymgeisio

Nid oes angen i'ch plentyn aros i dderbyn cynigion gan brifysgolion cyn ymgeisio am gyllid myfyriwr – fel arfer gallant wneud hyn o ddiwedd Ionawr ymlaen i'r corff cyllido myfyrwyr ar gyfer lle maent yn byw ar y pryd (gweler 'Mae lleoliad o bwys').

I sicrhau y byddant yn derbyn eu benthyciadau'n brydlon, atgoffwch hwy i ddarparu eu tystiolaeth gefnogol ac anfon eu datganiad wedi'i lofnodi cyn gynted â phosibl.

Ad-dalu

Nid yw hyn yn seiliedig ar faint mae'ch mab neu ferch wedi'i fenthyci, ond yn hytrach ar faint byddant yn mynd ymlaen i'w ennill.

Ar hyn o bryd gosodir y trothwy incwm ar £21,000 ar gyfer myfyrwyr Cymreig a Seisnig (£16,910 ar gyfer myfyrwyr Albanaid, ac £17,335 ar gyfer myfyrwyr o Ogledd Iwerddon).

Dyma'r pwynt lle byddant yn dechrau talu swm yn ôl – 9% ar hyn o bryd – yn seiliedig ar yr hyn maent yn ei ennill **dros** y ffigur hwnnw bob blwyddyn. Ennill llai na hwnnw? Yna ni fyddant yn talu unrhyw beth yn ôl.

Unwaith bydd eich plentyn yn dechrau ad-dalu'r benthyciad, caiff ei gasglu fel mater o drefn trwy PAYE, felly ni fyddant yn gallu mynd i ddyled ar eu had-daliadau.

Er bod y benthyciadau'n cronni llog, ysgrifennir i ffwrdd unrhyw ddyled sy'n weddill wedi 30 mlynedd, sy'n golygu nad yw'n werth chweil i helpu'ch plentyn i dalu eu benthyciad yn ôl yn gynnar bob tro. Ni fydd benthyciadau myfyrwyr yn ymddangos ar ffeil gredyd eich plentyn ychwaith.

Gall Which? University eich helpu i helpu'ch mab neu ferch i ddeall cyllid myfyrwyr, cyllidebau, a materion ariannol. Ewch i www.which.co.uk/studentfinance i ddysgu rhagor.



Cynllunio eu dyfodol

Yn aml gall pobl ifanc yn eu harddegau fod yn orio, felly sut allwch drafod y pwnc llechwth o'u cynlluniau wedi iddynt orffen yn yr ysgol?

Syniadau ynghylch pynciau

Mae'n debygol mai ychydig o sgysiaid ysgafn dros ginio neu tra'n gwyllo'r teledu, yn hytrach nag eistedd i gael sgwrs frawythus ynghylch 'y dyfodol' yw'r ffordd orau i'w cael i ddechrau ystyried eu camau nesaf.

Os yw'r cam hwnnw'n golygu'r brifysgol ond maent yn profi anawsterau ynghylch cael eu hysbrydoli gan bwnc penodol, ceisiwch eu cael i ystyried meysydd posibl o astudio naill ai mewn:

- **pwnc maent yn ei astudio nawr** – os mai dyna'r pwnc sydd wrth eu bodd a'r un maent yn ei wneud orau, ceisiwch eu cael i ystyried a fydd yn dal i'w diddori am yr ychydig flynyddoedd nesaf, a pha lwybr(au) gyrfaol gallai arwain atynt
- **pwnc cysylltiedig â gyrfa** – os oes ganddynt uchelgeisiau mwy galwedigaethol eisoes, archwiliwch gyda'ch gilydd a oes angen iddynt astudio pwnc gradd arbennig er mwyn cael swydd yn y maes hwnnw, neu os yw eu hopsiynau'n fwy hyblyg
- **pwnc cwbl newydd** – mae llawer o ddisgyblaethau ar lefel gradd na fyddant wedi dod ar eu traws yn eu hastudiaethau o'r blaen. Gyda'ch gilydd, aseswch y rhain â meddwl agored, gan gysylltu pob un yn ôl i'r hyn maent yn ei fwynhau a sut maent yn dysgu orau.

Byddwch yn wrandawr da

Gall bod yn rhy ymwithgar neu roi pwysau ar eich plentyn i ddilyn llwybr gyrfaol neu radd benodol fod (a mae'n debygol y bydd) yn wrthgynhyrchiol.

Cadwch y sgwrs yn bositif, gan ganolbwyntio ar eu cryfderau, diddordebau (academaidd a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth), a dyheadau. Gall graddau disgwylidig, cardiau adroddiad, a nosweithiau rhieni diweddar weithio gystal â phrociau rhymarferol i helpu i nodi beth yw'r rhain.

Atogwch eich mab neu ferch i siarad ag athrawon, cynghorwyr gyrfaoedd, ac aelodau eraill y teulu i gael persbectif arall.

Dewisiadau amgen yn lle'r brifysgol

Os nad y brifysgol yw'r ateb (neu o leiaf nid ar hyn o bryd), mae opsiynau eraill i'w hystyried.

- **Prentisiaethau** – profiad a hyfforddiant yn y gwaith ar gyfer ystod fawr o lwybrau gyrfaol, gan gynnwys cyllid, manwerthu, TG, a gofal plant.
- **Byd gwaith** – gofynnwch iddynt ddatblygu eu CV, gwirio hysbysebion am swyddi, a siarad â recriwtwyr i gael synnwyr o wahanol farchnadoedd swyddi, gan gynnwys rhaglenni ar gyfer plant sy'n gadael yr ysgol.
- **Mynediad gohiredig i'r brifysgol** – treulio amser yn ennill profiad gwaith neu'n cwblhau blwyddyn i ffwrdd i gynyddu sgiliau, gwybodaeth, a hyder cyn mynd i addysg uwch.

Rhowch y diddordebau hynny ar brawf

Os ydynt wedi sôn am ychydig o feysydd maent yn ymddiddori ynnddynt, gofynnwch iddynt roi'r rhain ar brawf cyn gynted â phosibl lle gallant wneud hynny.

Efallai bydd lleoliadau profiad gwaith, dyddiau blas y brifysgol, gwirfoddoli, neu waith rhan-amser yn cynnig cipolygon newydd.

Ysbrydolwch hwy ag awgrymiadau, straeon gan fyfyrwyr eraill, a chyngor cam wrth gam ar ddewis cwrs gradd yn www.which.co.uk/degreecourse.

What's next?

National Careers Service
Helping you take the next step

It can be tricky to decide, that's why we offer free and impartial careers advice that will help take you further. Just visit nationalcareersservice.direct.gov.uk or call an adviser on 0800 100 900.

Traineeships

Apprenticeships

WHAT'S
STOPPING
YOU

There are up to 27,000 apprenticeship vacancies and 9,000 traineeship opportunities available on the website. Right now. apprenticeships.org.uk

Brought to you by
National
Apprenticeship
Service

Sut allwch helpu i ymchwilio i'w hopsiynau

Os bydd eich mab neu ferch yn penderfynu mai'r brifysgol yw'r llwybr cywir ar eu cyfer hwy, mae llawer o ymchwil yn dal i'w gwneud, â mwy na 37,000 o gyrsiau ar gyfer israddedigion i ddewis rhngddynt. Dyma ein hawgrymiadau uchaf i'ch helpu i helpu'ch plentyn â'u hymchwil.

1. Ewch ar-lein

- Defnyddiwch ein hofferyn chwilio yn search.ucas.com i ddod o hyd i gyrsiau ar gyfer israddedigion mewn prifysgolion, colegau, a chonservatoires. Bydd canlyniadau chwiliad yn dangos gofynion mynediad, gwybodaeth ynghylch ffoedd, a manylion ynghylch pryd i ymgeisio.
- Edrychwch ar wefannau prifysgolion, colegau, a chonservatoires i weld manylion dwfn ynghylch eu cyfleusterau a chysiau, ac i archwilio'r campws â'u rhith-daith yn www.ucas.com/virtual-tours.

2. Ewch allan ac o gwmpas

- Mae **arddangosfeydd UCAS** yn rhoi cyfle i'ch mab neu ferch gwrrd â phrifysgolion, colegau, darparwyr eraill o gyrsiau, a ni yn bersonol, er mwyn cael atebion i'w cwestiynau a chanfod beth allant ei gynnig. Gallai eu hysgol drefnu ymweliad grŵp, neu gallwch fynychu'n annibynnol.

Mae'r arddangosfeydd hyn yn rhad ac am ddim, a mae'n rhaid y bydd un yn agos i chi. Ewch i www.ucas.com/exhibitions i ddod o hyd i un ac i archebu'ch lle!

- Mae **diwrnodau agored prifysgolion a cholegau** yn caniatáu ichi edrych o gwmpas, cwrrd â staff a myfyrwyr, ac

ystyried a fyddai'ch mab neu ferch yn hapus i astudio yno. Defnyddiwch ein hofferyn chwilio ar gyfer diwrnodau agored yn www.ucas.com/opensdays er mwyn canfod pryd fydd y brifysgol maent yn ymddiddori ynddi'n cynnal eu diwrnod agored nesaf. Gallwch hidlo yn ôl ardal a dyddiad er mwyn gwneud canlyniadau'ch chwiliad yn fwy perthnasol.

- Trefnir cyrsiau blas ar gyfer cyrsiau neu bynciau penodol ac yn aml maent yn cynnwys darlithoedd a gweithdai ymarferol, i roi syniad i'ch mab neu ferch o'r profiad o astudio'r cwrs arbennig hwnnw. Gallwch eu gweld yn www.ucas.com/taster-courses.

3. Ystyried cerddoriaeth, dawn, neu ddrama?

Os yw eich mab neu ferch yn ystyried gyrfa mewn cerddoriaeth, dawn, neu ddrama, gallant ddewis rhwng ymgeisio trwy UCAS Israddedigion ac UCAS Conservatoires. Mae prifysgolion a conservatoires fel ei gilydd yn cynnig graddau israddedig.



AWGRYM: Os nad yw eich mab neu ferch yn siŵr pa fath o gwrs syddf wyaf addas ar eu cyfer, gallant ymgeisio trwy'r ddau wasanaeth ymgeisio. Os cânt le yn y ddau, bydd angen iddynt benderfynu p'un i'w dderbyn.

Astudio mewn Conservatoire:

- Mae conservatoire yn goleg sy'n arbenigo mewn cyrsiau seiliedig ar berfformio, ond sydd hefyd yn cynnwys astudiaethau academiaidd.
- Os yw eich mab neu ferch yn ymddiddori mewn disgyblaeth ymarferol, megis

perfformio lleisiol neu ddawnsio, efallai byddai'n well ganddynt fynd i gonservatoire.

- Y terfynau amser ar gyfer ceisiadau i gonservatoire yw:
 - 1 Hydref 2016 (18:00 amser y DU) ar gyfer cyrsiau cerddoriaeth
 - 15 Ionawr 2017 (18:00 amser y DU) ar gyfer y mwyafrif o gyrsiau dawn, drama, a chynhyrchu sgrîn – mae rhai eithriadau, felly gwiriwch wefannau'r conservatoires.

I weld rhagor o wybodaeth a chyngor ynghylch ymgeisio i ac astudio mewn conservatoire, ewch i www.ucas.com/conservatoires.

4. Ystyried addysgu?

Os yw eich mab neu ferch yn ystyried gyrfa fel athro, mae arnynt angen Addysg neu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (ITET), wedi'i leoli mewn prifysgol, ysgol, neu goleg yn y DU. Gallant hyfforddi naill ai fel myfyrwr israddedig, neu fel myfyrwr graddedig os oes ganddynt radd israddedig eisoes.

Cyfeiriwch hwy tuag at www.ucas.com/teachertraining i gael gwybodaeth ynghylch yr hyn mae arnynt angen ei wneud, ac i gofrestru ar gyfer ein pecyn gwybodaeth am ddim, a fydd yn eu helpu i lywio eu ffordd trwy'r broses ymgeisio.

Y Tariff UCAS

Defnyddir y Tariff gan brifysgolion a cholegau i wneud cymariaethau llydan rhwng cymwysterau a ddefnyddir ar gyfer mynediad i addysg uwch. Dyrennir pwyntiau i ystod eang o gymwysterau a gellir eu hadio ynghyd (o fewn rheolau penodol) er mwyn rhoi sgôr Tariff. Mae rhai prifysgolion yn cyfeirio at bwyntiau Tariff fel amodau i'w cynigion.

Rydym yn cyflwyno Tariff newydd ar gyfer cyrsiau yn cychwyn o fis Medi 2017 ymlaen. Gwnewch yn siŵr bod eich mab neu ferch yn edrych ar yr un cywir ar gyfer pryd byddant yn ymgeisio:

- Ar gyfer cyrsiau'n cychwyn **cyn** Medi 2017, ewch i www.ucas.com/tariff-tables.
- Ar gyfer cyrsiau'n cychwyn **o fis** Medi 2017 ymlaen, gweler www.ucas.com/new-tariff.





Mehefin i Fedi 2016

Sut i lenwi'r ffurflen gais UCAS

Cyn iddynt ddechrau eu cais, anogwch eich mab neu ferch i edrych ar ein canllaw fideo byr yn www.ucas.com/fillinginyourapplication.

Cofrestru

Dyma'r cam cyntaf – mae'n rhad ac am ddim a mae'n cymryd oddeutu 15 munud i nodi manylion sylfaenol a sefydlu gwybodaeth ddiogelwch. Unwaith maent wedi cofrestru, mae saith adran i'w cwblhau:

1. **Manylion personol** – Bydd hon eisoes yn cynnwys yr wybodaeth iddynt ei rhoi wrth gofrestru, a bydd rhagor o gwestiynau ynghylch cymorth a phreswyllo'r myfyriwr.
2. **Gwybodaeth ychwanegol** – Mae hon yn cynnwys cwestiynau ynghylch cydraddoldeb ac yn rhoi manylion ynghylch unrhyw baratoi maent wedi'i wneud ar gyfer addysg uwch.

3. **Cyllid myfyrrwr** – Gall eich mab neu ferch gofrestru i dderbyn e-bost gennym i roi gwybod iddynt pryd gallant ymgeisio am gyllid myfyrrwr. Gweler tudalennau 6 a 7 i weld rhagor o wybodaeth.
4. **Dewisiadau** – Gallant wneud hyd at bum dewis cwrs (pedwar mewn meddygaeth, deintyddiaeth, neu wyddor filfeddygol).
5. **Addysg** – Bydd arnynt angen darparu rhestr o'r holl ysgolion maent wedi'u mynychu ers 11 oed, gan gynnwys y dyddiadau buont yno, eu holl ganlyniadau arholiad (pasio neu fethu), a manylion ynghylch unrhyw arholiadau sydd yn dal i'w sefyll.
6. **Datganiad personol** – Dyma eu cyfle i argyhoeddi'r brifysgol neu goleg i gynnig lle iddynt.
7. **Cyflogaeth** – Os oes gan eich mab neu ferch swydd ran-amser, dylent gynnwys y manylion sylfaenol yma. Gallant siarad ymhellach am hyn yn eu datganiad personol.

Gall eich mab neu ferch lenwi eu cais ar unrhyw adeg, gan gadw eu cynnydd wrth fynd ymlaen. Gallant fynd yn ôl a'i olygu tan eu bod yn fodlon ei fod yn gyflawn. Yn olaf, mae adran ar gyfer y tystlythyr, a ychwanegir gan eu canolwr (fel arfer eu hathro).

Mehefin i Fedi 2016

Helpwch eich plentyn i ysgrifennu datganiad personol gwych

Mae llawer o ymgeiswyr yn canfod mai ysgrifennu eu datganiad personol yw'r rhan anosaf o'r cais. Gall cymryd ymagwedd bositif a chaniatáu digon o amser i'w wneud yn dda wir sicrhau bydd cais eich mab neu ferch yn sefyll allan o'r pentwr.



AWGRYM: Mae datganiad personol da'n...

- berthnasol ac â ffocws – peidiwch â gwastraffu'r 4,000 o nodau
- defnyddio Saesneg clir, plaen
- osgoi ystrydebau
- gwreiddiol- mae ein meddalwedd yn sganio'r holl ddatganiadau personol am lèn-ladrad
- cael ei ail-ddrafftio sawl gwaith tan ei fod yn gywir

Rydym wedi creu offeryn datganiad personol i helpu'ch mab neu ferch i ystyried beth i'w ysgrifennu a sut i'w strwythuro. Er mwyn rhoi cynnig arno, ewch i www.ucas.com/personalstatement.

Ble ddylent gychwyn?

Anogwch hwy i:

- feddwl am yr hyn sy'n eu gwneud yn ddi-ddoro la'r hyn sy'n gwneud iddynt sefyll allan mewn ffordd bositif
- ysgrifennu llawer iawn o eiriau – unrhyw beth sy'n dangos pam maent yn llawn cyffro ynghylch y cwrs / cysiau maent yn gwneud cais amdano / amdanynt
- cofio pam maent wedi dewis y pwnc
- rhestru profiad gwaith neu weithgareddau eraill fel tystiolaeth gefnogol i ddangos pam byddent yn fyfyrwr gwych
- ystyried sgiliau gallent eu defnyddio ar y cwrs, megis arweiniad, cyfathrebu, a rheoli amser
- gofyn i chi a'u ffrindiau am syniadau ac adborth

Tynnu popeth ynghyd

Cymryd yr holl syniadau hynny a'u strwythuro i wneud datganiad personol perffaith yw'r cam nesaf. Mae gan eich mab neu ferch hyd at 4,000 o nodau i'w hysgrifennu yn eu datganiad personol. Mae pedair rhan allweddol i ddatganiad personol da:

- **Rhan gyntaf** – paragraff agoriadol trawiadol yn dangos eu cyffro am a'u dealltwriaeth o'r cwrs.
- **Rhan ganol** – tystiolaeth i gefnogi eu diddordeb yn y cwrs. Bydd sgiliau perthnasol, profiad gwaith ac eiliadau ysbrydoledig i gyd yn ymddangos yma.
- **Rhan derfynol** – dyma ble maent yn ysgrifennu amdanynt eu hunain, yr hyn sydd o ddiddordeb iddynt, a pha mor dda byddant yn ffitio i mewn i fywyd y brifysgol.
- **Paragraff terfynol** – datganiad cryno sy'n gadael y darlennydd â dealltwriaeth glir o pam mae'ch mab neu ferch yn berffaith ar gyfer y cwrs.

Pryd ddylent ymgeisio?

Mae Apply Israddedigion UCAS 2017 yn agor ar 24 Mai 2016 – gellir cychwyn ceisiadau pryd hynny ond ni ellir eu hanfon atom tan 1 Medi 2016. Mae terfynau amser gwahanol ar gyfer ymgeisio gan ddibynnu ar y cyrsiau mae'ch mab neu ferch wedi ymgeisio iddynt – gweler tudalen 3 am fan ylion.

Ni ellir anfon ceisiadau at UCAS tan:

- 1 Medi 2016
- Mae pob adran wedi'i chwblhau, a mae ffi'r cais wedi'i thalu



AWGRYM: Anogwch eich mab neu ferch i ganiatáu amser wrth gefn cyn terfyn amser UCAS rhag ofn yr aiff rhywbeth o chwith, er enghraifft, colli mynediad i'r rhyngrwyd, taliad cerdyn yn methu, neu os na ychwanegir y canolwr mewn da bryd.

Os yw eich mab neu ferch yn ymgeisio trwy eu hysgol neu goleg, aelod o staff fydd yn anfon eu cais.



AWGRYM: Yn adran fanylion personol y cais, mae opsiwn i'ch mab neu ferch ychwanegu'ch enw at eu cais ar gyfer 'mynediad enwebedig'. Mae hyn yn caniatáu ichi gysylltu â ni – neu'r prifysgolion maent wedi gwneud cais iddynt – ar eu rhan. Ond gwnewch yn siŵr bod gennych eu ID Personol wrth law ac y gallwch ateb cwestiynau diogelwch sylfaenol pan ffoniwch.

Ni all prifysgolion ac UCAS siarad â chi am fanylion penodol cais eich mab neu ferch oni bai bod gennych fynediad enwebedig.



EXPLORE
DREAM
DISCOVER

STUDY WITH
A TOP FIVE
MODERN UK
UNIVERSITY*


DISCOVER
WITH
PLYMOUTH
UNIVERSITY

www.plymouth.ac.uk/apply

   /PlymUniApply

*2015 Times Higher Education 100 under 50

Taith cais



Beth sy'n digwydd unwaith y derbyniwn eu cais?

1. Rydym yn gwirio bod popeth yn gywir ac nad yw'r datganiad personol wedi'i gofio. Gall hyn gymryd hyd at 48 awr.
2. Anfonwn e-bost o groeso i'ch mab neu ferch pan yw ein gwiriadau wedi'u cwblhau. Mae hyn yn esbonio sut i ddefnyddio Track i wirio cynnydd eu cais, ac yn cynnwys eu ID Personol, yr hyn fydd arnynt ei angen i fewngofnodi. Mae fideo hwylus ynghylch defnyddio Track yn www.ucas.com/trackyourapplication.
3. Ar yr un pryd, anfonir y cais at eu prifysgolion a cholegau dewisol. Ni fydd prifysgolion yn gwybod ble maent wedi ymgeisio.
4. Cyn gynted â bod prifysgolion yn rhoi gwybod inni am gyfweliad, clyweliad, prawf, neu benderfyniad, byddwn yn e-bostio'ch mab neu ferch fel byddant yn gwybod y dylent wirio Track.

Mathau o benderfyniadau gall prifysgol eu gwneud

Mae derbyn cynnig amodol neu ddiamedd yn newyddion da, ond mae'n bwysig deall y gwahaniaeth a'r ymrwymiad maent yn ei wneud os derbyniant un.

- Mae **cynnig amodol** yn golygu bod angen i'ch mab neu ferch ddiwallu rhai amodau – fel arfer canlyniadau arholiadau – cyn eu bod yn sicrhau eu lle. Os derbyniant gynnig amodol fel eu dewis cadarn, maent yn ymrwymo i dderbyn y lle.

- Mae **cynnig diamedd** yn golygu bod y lle ar gael iddynt os ydynt ei eisiau. Efallai bydd rhaid iddynt ddal i ddiwallu amodau anacademaidd, megis gwiriad iechyd. Os derbyniant gynnig diamedd fel eu dewis cadarn (gweler tudalen 18), maent yn ymrwymo i dderbyn y lle, ta waeth am ba raddau maent yn eu cael.
- Mae **cais aflwyddiannus** yn golygu bod y brifysgol wedi penderfynu peidio â chynnig lle i'ch mab neu ferch.
- Mae **cais wedi'i dynnu'n ôl** yn golygu bod y dewis wedi'i dynnu'n ôl naill ai gan eich mab neu ferch, neu gan y brifysgol. Os yw'r brifysgol wedi gwneud hyn, byddant yn rhoi gwybod i'ch mab neu ferch am y rheswm.

Unwaith eu bod wedi cael penderfyniadau gan bob un o'u dewisiadau, gall eich mab neu ferch ymateb iddynt.

Ymateb i gynigion

Pan fydd eich mab neu ferch wedi derbyn penderfyniadau gan bob un o'u dewisiadau, bydd angen iddynt ymateb i unrhyw gynigion sydd ganddynt. Bydd angen iddynt fod yn gwbl siŵr eu bod yn derbyn y cynnig cywir, am y rheswm cywir.

Mae proses ymgeisio UCAS yn cydymffurfio â deddfau defnyddwyr a chyngor yr Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd. Mae hyn yn golygu, ar ôl iddynt anfon eu cais atom, y bydd gan eich mab neu ferch 14 diwrnod lle gallant ganslo eu cais a derbyn ad-daliad llawn, os ydynt eisieu gwneud hynny.

Pan yw eich mab neu ferch wedi ymateb i'w cynigion, bydd ganddynt 14 diwrnod hefyd i newid eu ymatebion, ond gallant wneud hyn unwaith yn unig.

Cyn iddynt ymateb, bydd angen iddynt:

- **ddeall amodau eu cynnig** – os nad ydynt yn siŵr, dylent gysylltu â'r brifysgol
- **ymweld â'r brifysgol neu goleg** – os nad ydynt wedi'i wneud eisoes, mae'n syniad da i wirio a fyddant yn hapus yno
- **trafod unrhyw anghenion unigol â'r brifysgol** – er enghraifft, os oes ganddynt anabledd – fel bod popeth yn ei le pan fyddant yn cychwyn y cwrs
- **gwirio'r ffioedd dysgu** – mae'n bwysig gwybod beth ydynt cyn derbyn y cynnig
- **cymharu eu cynigion** er mwyn penderfynu pa rai maent am eu derbyn a pha rai nad ydynt am eu derbyn

Pa ymatebion allant eu gwneud?

Gall eich mab neu ferch dderbyn cynnig fel eu dewis **cadarn** neu **yswiriant**.

Dewis cadarn

- Ar gyfer cynnig amodol, byddant yn sicr o le ar y cwrs os byddant yn diwallu'r amodau.
- Ar gyfer cynnig diamod, mae'r lle yn sicr iddynt.
- Yn y naill achos neu'r llall, maent yn ymrwymo i'r cwrs hwnnw yn y brifysgol honno.

Dewis yswiriant

Mae hwn yn cyflwyno'r un lefel o ymrwymiad â dewis cadarn, ond mae'n dod yn berthnasol dim ond os nad yw eich mab neu ferch yn diwallu amodau eu dewis cadarn – mae fel ail gyfle i gael lle. Mae'n gwneud synnwyr i'r dewis yswiriant gyflwyno amodau llai llethol na'r dewis cadarn.

Gallwch weld rhagor o wybodaeth a fideo ynghylch ymateb i gynigion yn www.ucas.com/replies.

Extra yn agor

Er gwaethaf yr holl ymchwil gofalus ynghylch dewis y cwrs/cyrsiau cywir, weithiau nid yw'n digwydd fel y disgwyl. Gall cystadleuaeth fod yn galed, gan olygu nad yw hyd yn oed y myfyrwyr gorau'n cael y cynigion roeddent yn gobeithio amdanynt bob tro. Ar y llaw arall, efallai byddant yn derbyn cynigion ar gyfer cyrsiau nad oes ganddynt ddi-ddordeb ynddynt bellach. Felly beth allant ei wneud yn lle?

Mae **Extra** yn gyfle i'ch mab neu ferch chwilio am gwrs arall heb aros am Clearing (gweler tudalen 23).

Er mwyn defnyddio Extra, yn gyntaf mae'n rhaid iddynt fod yn gymwys:

- Rhaid eu bod wedi defnyddio pob un o'r pum dewis.
- Rhaid naill ai nad ydynt wedi derbyn unrhyw gynigion, neu eu bod wedi gwrthod unrhyw gynigion maent wedi'u derbyn.

Mae Extra yn agor ar 25 Chwefror 2017 ac yn dod i ben ar 4 Gorffennaf 2017. I weld rhagor o fanylion, ewch i www.ucas.com/extra.



Paratoi ar gyfer y canlyniadau

Mae'r arholiadau drosodd, bydd rhaid i'ch mab neu ferch brofi arhosiad diamynedd tan ddiwrnod y canlyniadau. Defnyddiwch yr amser hwnnw i ddyfeisio cynllun B, rhag ofn na fydd pethau'n gweithio allan fel y gobeithiwyd...

Gosod disgwyliadau cynnar

Ceisiwch fesur sut mae pethau wedi mynd. Er na allant ragweld popeth, dylai fod ganddynt syniad bras yn seiliedig ar sut mae eu harholiadau ac aseiniadau wedi mynd. Gall hyn fod yn ddefnyddiol i benderfynu ai cynllun wrth gefn neu ddewis amgen sydd ei angen.

Methu'n agos ar eu graddau

Meddylwch yn gadarnhaol! Hyd yn oed os nad ydynt yn cyflawni'r graddau yr oeddent yn eu disgwyl neu sydd arnynt eu hangen, efallai y bydd eu prifysgol dewis cadarn yn dal i'w derbyn.

Cwrs brifysgol arall

Os ydynt yn colli allan ar eu lle, mae Gwasanaeth Clearing UCAS (gweler tudalen 23) yn cynnig y cyfle i wneud cais am gyrsiau eraill. Dechreuwch baratoi nawr trwy eu hannog i ystyried y cyrsiau gwreiddiol roeddent yn eu hystyried eto – ffordd dda o gael rhestr fer barod o brifysgolion a chysiau.

Blwyddyn allan

Efallai y byddant yn dymuno ailymgeisio flwyddyn nesaf ar gyfer cyrsiau ychydig yn wahanol neu i brifysgolion eraill. Mae nawr yn amser da i ddechrau meddwl am sut allai blwyddyn allan gynhyrchol fod, er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn cael y gorau ohoni.

Ailsefyll arholiadau

Yn dibynnu ar eu canlyniadau, efallai y byddant yn penderfynu ail-sefyll pwnc cyn ailymgeisio. Mae hyn yn golygu mwy o arholiadau haf nesaf, dod o hyd i rywle i'w sefyll, ac yn ôl pob tebyg rhywfaint o ddysgu ychwanegol.

Ail-farcio ac apeliadau

Os yw eich mab neu ferch yn anffodlon ar ganlyniad arholiad ac yn teimlo ei fod wedi'i farcio yn annheg, siaradwch â'u hysgol neu goleg ynghylch apelio yn erbyn y radd (ni fyddwch yn gallu holi yn uniongyrchol i'r bwrdd arholi eich hunan).

Byddant hefyd yn gallu rhoi cyngor i chi yn seiliedig ar wybodaeth ynghylch yr holl ganlyniadau ar gyfer yr arholiad hwnnw ar draws grŵp blwyddyn eich mab neu ferch.

Ewch i www.which.co.uk/appeals am gyngor cam wrth gam ar y broses apelio yn erbyn gradd.

Gwell na'r disgwyl

Os oes gan eich plentyn obeithion mawr ar gyfer diwrnod y canlyniadau, mae opsiwn i 'uwchraddio' eu lle drwy broses Adjustment UCAS (gweler tudalen 23) i gael cynnig ar gwrs â gofynion mynediad uwch. Defnyddiwch yr amser nawr i ymchwilio i gyrsiau posibl.

Llwybr arall

Efallai bydd astudio tramor yn ddewis amgen ymarferol efallai hyd yn oed bod lleoedd gwag ar gael ar gyrsiau iaith Saesneg mewn prifysgolion Ewropeaidd penodol. Beth am gymhwyster gwahanol yn gyfan gwbl, neu fynd i fyd gwaith?

Argymhellir yn gryf bod eich plentyn yn y wlad ar gyfer diwrnod y canlyniadau, felly osgowch archebu unrhyw wyliau o gwmpas yr wythnos honno. Trwy hyn, os bydd angen iddynt siarad â rhywun am eu canlyniadau neu opsiynau ar y diwrnod, byddant yn gallu gwneud hynny. Efallai y byddwch chi am fod o gwmpas hefyd...

Mae gan Which? University ragor o awgrymiadau a chynghor i'ch helpu i baratoi ar gyfer diwrnod y canlyniadau. Ewch i www.which.co.uk/resultsday.

University of South Wales Prifysgol De Cymru

Ydy'ch plentyn yn gwneud cais prifysgol? Gall Rhieni'n Rhannu eich helpu.



Mae Rhieni'n Rhannu yn rhoi gwybodaeth i chi ar sut i oroesi'r broses ymgeisio i brifysgol. Mae gennym gyngor ar sut i gael y mwyaf allan o Ddiwrnodau Agored a chyfarwyddyd ar sut i fantoli costau prifysgol. Mae gennym hefyd gyfweiliadau gyda rhieni a chanllaw ar y jargon a ddefnyddir i wneud yn siŵr eich bod yn deall yr holl derminoleg.

I archebu copi AM DDIM heddiw, ewch i www.decymru.ac.uk/parents neu ffoniwch ein Llinell Gymorth i Rieni ar **03455 760 996**.

Cael canlyniadau arholiadau

- Rydym yn derbyn canlyniadau arholiadau, yn eu cydweddu ag unigolion, ac yn sicrhau eu bod ar gael i brifysgolion a cholegau.
- Yna mae prifysgolion yn gwirio manylion y cynnig ac yn cadarnhau bod yr amodau wedi'u diwallu.
- Os yw'r brifysgol wedi cadarnhau eu lle, bydd hyn yn cael ei ddangos yn glir yn Track.

AWGRYM: Mae mynediad cyfyngedig i Track tra byddwn yn prosesu canlyniadau. Dangosir manylion ynghylch ei argaeledd ar ein gwefan.

Cael eu canlyniadau

Nid ydym yn cyfathrebu canlyniadau i ymgeiswyr – maent yn dod oddi wrth y bwrd arholi, naill ai trwy eu hysgol, trwy'r bost, neu ar-lein.

Rydym yn anfon rhai canlyniadau ymlaen at brifysgolion neu golegau, ond nid pob un ohonynt. Gwiriwch a oes angen i'ch mab neu ferch anfon unrhyw rai o'u canlyniadau at eu dewisiadau cadarn ac yswiriant. Os oes angen gwneud hynny, bydd angen iddynt wneud hyn cyn gynted â bod y canlyniadau ar gael. Gallwch wirio pa ganlyniadau rydym yn eu derbyn yn www.ucas.com/sending-exam-results.

AWGRYM: Ceisiwch fod yno pan fyddant yn cael canlyniadau eu harholiadau, fel y gallwch rannu yn eu cyffro, neu eu cefnogi os na fydd pethau'n mynd yn ôl y bwriad.

Beth os oes newyddion da iawn?

Pan fydd eu canlyniadau yn cael eu cyhoeddi, gallai eich mab neu ferch gyflawni graddau llawer uwch nag amodau eu cynnig. Os digwydd hyn, gweler tudalen 23 i gael manylion am ein gwasanaeth Adjustment.

AWGRYM: Gwnewch yn siŵr bod manylion cyswllt eich mab neu ferch yn gyfredol yn Track, gan gynnwys eu cyfeiriad, e-bost, a rhif ffôn symudol.

Beth os nad ydynt yn cael y graddau roeddent yn eu disgwyl?

- Efallai bydd y brifysgol yn dal i'w derbyn, ond nid oes sicrwydd.
- Efallai y byddant yn cynnig lle ar gwrs arall i'ch mab neu ferch, neu gwrs ar gyfer blwyddyn mynediad wahanol.
- Gallai'ch mab neu ferch:
 - chwilio am gwrs arall gan ddefnyddio Clearing (gweler tudalen 23)
 - ail-sefyll rhai arholiadau ac ailymgeisio y flwyddyn nesaf
 - gwneud prentisiaeth neu hyfforddeiaeth – dysgu rhagor yn www.ucas.com/alternatives
 - cymryd blwyddyn i ffwrdd
 - ennill arian a dysgu â swydd

Clearing ac Adjustment

Mae Clearing ac Adjustment ill dau yn opsiynau i'w defnyddio pan nad yw canlyniadau arholiadau fel a ddisgwylir, ond fe'u defnyddir o dan amgylchiadau gwahanol.

Mae **Clearing** yn gyfle i fyfyrwyr chwilio am le os nad oes ganddynt un ar ôl wedi iddynt gael eu canlyniadau arholiadau. Mae hefyd yn gyfle olaf i brifysgolion lenwi unrhyw leoedd sy'n dal ar gael ganddynt.

I chwilio am le Clearing, mae'n rhaid i'ch mab neu ferch fod yn gymwys. Mae hyn yn golygu naill ai:

- nad oes ganddynt unrhyw gynigion
- mae eu dewisiadau cadarn ac yswiriant wedi eu gwneud yn aflwyddiannus
- maent wedi gwneud cais ar ôl 30 Mehefin 2017 (gweler tudalen 3)

AWGRYM: Os yw eich mab neu ferch wedi talu am un dewis yn unig, bydd angen iddynt dalu swm ychwanegol o £ 11 i wneud cais am gwrs yn Clearing. Gallant wneud hyn yn Track..

Mae Clearing yn dechrau yn swyddogol ar 5 Gorffennaf 2017. Fodd bynnag, rhaid i fyfyrwyr gael eu holl ganlyniadau arholiadau i allu ei ddefnyddio, felly bydd y rhan fwyaf o fyfyrwyr sy'n gymwys yn defnyddio Clearing ym mis Awst. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.ucas.com/clearing.

Adjustment

Os yw canlyniadau eich mab neu ferch yn well na'r disgwyl, efallai y byddant yn rhagori ar amodau eu dewis cadarn. Yn y sefyllfa hon, efallai byddant yn dymuno ystyried Adjustment i ddod o hyd i gwrs arall.

Mae Adjustment ar gael rhwng 18 a 31 Awst 2017, ond bydd gan ymgeiswyr bum niwrnod yn unig i'w ddefnyddio, o'r eiliad bydd eu dewis cadarn yn cadarnhau eu lle, neu o 18 Awst, p'un bynnag yw'r diweddarach.

Os nad ydynt yn dod o hyd i gwrs arall maent yn ei hoffi, byddant yn cadw'r lle maent wedi'i ennill ar ddiwrnod y canlyniadau. Am ragor o wybodaeth, ewch i www.ucas.com/adjustment.



Paratoi ar gyfer y brifysgol

Mae'r gwaith caled wedi cael ei wneud a maent bron ar eu ffordd i'r brifysgol! Nawr mae'r mater bach o bacio, yn ogystal â rhywfaint o gynllunio terfynol cyn iddynt godi llaw a dweud hwyl fawr am ychydig flynyddoedd.

Cyllidebau a chyfrifon banc

Erbyn hyn, dylech chi a'ch mab neu ferch fod â syniad da ynghylch eu cyllideb ar gyfer pob tymor. Rhowch rai awgrymiadau iddynt ar gyfer torri eu costau byw, a'r offer i aros o fewn eu cyllideb – gallai taenlen wariant wythnosol semi gyflawni rhyfeddodau!

Hefyd mae'n syniad da i agor cyfrif banc myfyriwr cyn iddynt ymadael, fel y gallant gymryd amser i gymharu'r hyn sydd ar gael.

Mae banciau'n awyddus i ddenu myfyrwyr ag anrhegion am ddim, ond edrychwch y tu hwnt i'r tocy'n rheilffordd myfyriwr neu gymhellion â thalebau. Yn aml, gallai fod nodweddion fel lefel y gorddrafft di-log fod yn fwy hanfodol yn y tymor hir. Pan ydych yn cymharu cyfleusterau gorddrafft 0% sydd ar gynnig, gwiriwch a yw'r prif swm yn warantedig, neu ddim ond 'hyd at', ac a oes unrhyw gyfyngiadau eraill.

Anogwch eich plentyn i weld gorddrafft fel byffer defnyddiol yn hytrach nag arian ychwanegol, ac i gadw o fewn eu terfyn awdurdodedig bob amser er mwyn osgoi costau swmpus.

Ar gyfer cymharu cyfrifon banc ar gyfer myfyrwyr, teclynnau o werth mawr, a rhagor o gyngor ar sut i'w paratoi ar gyfer y brifysgol, ewch i www.which.co.uk/preparingforuni.

Biliau myfyrwyr

- **Y Dreth Gyngor** – os yw pawb sy'n byw yng nghartref eich mab neu ferch yn fyfyrwr llawn-amser, ni fydd yn rhaid iddynt dalu'r Dreth Gyngor. Os nad yw rhywun yn eu cartref yn fyfyrwr amser llawn, byddant

yn cael bil treth Gyngor, ond byddant yn gymwys i gael gostyngiad.

- **Biliau cyfleustodau** – os bydd eich plentyn yn symud i mewn i lety preifat, efallai na chynhwysir biliau cyfleustodau, felly gwnewch yn siŵr eu bod yn ymwybodol o filiau nwy, trydan, a dŵr.
- **Rhyngwrwyd** – mae llawer o brifysgolion yn cynnig cysylltiad am ddim â'r rhyngwrwyd mewn neuaddau, felly byddwch yn siŵr o ofyn.
- **Trwydded Deledu** – mae ar fyfyrwyr angen trwydded deledu os ydynt yn gwyllo neu recordio rhaglenni teledu wrth iddynt gael eu dangos ar y teledu, ar unrhyw ddyfais. Fel arfer mae gan neuaddau preswyl drwydded i gwmpasu ardaloedd cymunedol. Nid oes arnoch angen un i ddefnyddio gwasanaeth dal-i-fyny neu ffrydio megis Amazon Prime, BBC iPlayer, neu Netflix.
- **Yswiriant** – gwiriwch brint mân eich yswiriant cynnwys. Os nad yswirir eu meddiannau personol pan ydynt i ffwrdd o'r cartref, efallai bydd yn werth cael polisi ar wahân iddynt.

Addysgwch rywfaint o annibyniaeth iddynt

Gallwch achub eich plentyn rhag rhai trychinebau domestig (a gallwch eich achub eich hunan rhag rhai negeseuon neu alwadau ffôn gwyllt) trwy addysgu iddynt rhai rhyseitiau syml, sut i olchi dillad heb droi popeth yn binc, a phethau ychwanegol defnyddiol fel sut i wrnio botwm yn ôl.

Paratowch eich hunan hefyd

Nid yw popeth yn ymwneud â hwy! Mae hyn yn newid mawr i chi yn ogystal. Siaradwch â rhieni eraill y mae eu cartrefi hwy hefyd ychydig yn dawelach ers i'w plant ymadael am y brifysgol.

Meddyliwch am yr hyn yr hoffech ei wneud gyda'ch amser ychwanegol - efallai dechrau hobi eich bod wedi bod yn ei osgoi neu dreulio mwy o amser gyda ffrindiau ac aelodau eraill o'r teulu.

Eitemau mae'n rhaid eu cael:

- **Dillad** – peidiwch â phacio popeth; bydd digon ar gyfer y tymor hwnnw'n gwneud y tro.
- **Dillad gwely** – duvet, cynfasau, gobenyddion, a thywelion.
- **O'r cabinet ystafell ymolchi** – pethau ymolchi, sbectol, lensys cyffwrdd, meddyginiaeth, a phhecyn cymorth cyntaf bach.
- **Golchi dillad** – cynhyrchion golchi, bag golchi dillad, a rac sychu.
- **Electroneg** – gliadiadur, llechen, argraffydd, ceblau estyn, a llenwyr.
- **Cegin** – cyllyll a ffyrc, llestri, gwydrau, potiau, sosbenni, yn ogystal â theclynnau sylfaenol fel tegell a thostiwr, os na ddarperir y rhain (gwiriwch â'u llety yn gyntaf!)
- **Gweinyddu** – pasport, trwydded yrru, cerdyn meddygol y GIG, rhif Yswiriant Gwladol, a phob gohebiaeth bwysig â'u prifysgol.
- **Pethau bwyd sylfaenol** – coffi, bagiau te, grawnfwyd, olew coginio, tuniau, a chynfennau (papur, halen ac ati).

Pethau i'w gadael ar ôl:

- **Teledu a chonsol gemau** – anogwch hwy i fynd allan a chwrdd â phobl, yn hytrach na'u cloi eu hunain dan do.
- **Deunydd ysgrifennu a llyfrau** – ar wahân i'r llyfrau bydd arnynt eu hangen ar gyfer cychwyn cyntaf y tymor, gallant brynu y rhan fwyaf ar ôl iddynt gyrraedd.
- **Poster a décor** – ar wahân i rai pethau ychwanegol arbennig i helpu i'w hatgoffa am eu cartref, gallant bersonoli eu hystafell ar ôl iddynt ymsefydlu.



Adnoddau defnyddiol i'ch helpu chi

Mae nifer o ffyrdd y gallwch chi a'ch mab neu ferch gael cymorth gennym ar-lein – ewch i www.ucas.com/connect i ddod o hyd i ganllawiau fideo, cysylltiadau cyfryngau cymdeithasol, a blogiau gan rieni eraill sy'n mynd trwy'r un profiadau â chi.



www.twitter.com/ucas_online



www.facebook.com/ucasonline



www.youtube.com/ucasonline



plus.google.com/+ucasonlineofficial/posts

Gallwch ein ffonio ar **0371 468 0 468**, o ddydd Llun i ddydd Gwener, 8:30 – 18:00 (amser y DU).

Edrychwch ar ein wal fideo yn www.ucas.com/connect/videos am fideos defnyddiol 'sut-i', cyfres o ganllawiau rhieni'n parhau am 90 eiliad, a llawer, llawer mwy.



Efallai byddwch yn cael y gwefannau eraill hyn yn ddefnyddiol:

- **Cyngor ar Yrfaedd:**

National Careers Service for England
nationalcareersservice.direct.gov.uk

Careers Service Northern Ireland
www.nidirect.gov.uk/careers

Skills Development Scotland
www.myworldofwork.co.uk

Gyrfa Cymru
www.careerswales.com

Conservatoires UK
www.conservatoiresuk.ac.uk

Get into teaching
www.education.gov.uk/get-into-teaching

- **Myfyrwr ag anableddau:**

Disability Rights UK
www.disabilityrightsuk.org

Lwfansau ar gyfer Myfyrwr Anabl
www.gov.uk/disabled-students-allowances-dsas

- **Blynyddoedd i ffwrdd:**

gap-year.com
www.gap-year.com

The Year Out Group
www.yearoutgroup.org

- **Cyngor cyffredinol ar addysg uwch:**

Unistats
unistats.direct.gov.uk

Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr
www.nus.org.uk

Which? University
university.which.co.uk

- **Arian a chyllid myfyrwr:**

Gweler tudalen 6 ar gyfer manylion ynghylch y gwahanol sefydliadau ariannu.



AWGRYM: Os yw eich mab neu ferch yn byw y tu allan i'r DU ar hyn o bryd, efallai byddwch yn cael ei fod yn ddefnyddiol i ddarllen ein 'Canllaw israddedigion rhyngwladol ar gyfer rhieni'. Gallwch lawrlwytho'r canllaw yn www.ucas.com/internationalguides.

cyngor doeth am

GYLLID I FYFYRWYR




Meddwl am sut fydd eich plentyn yn talu am y brifysgol? Bydd Cyllid Myfyrwyr Cymru yma i helpu.


Ewch i'n gwefan, hoffwch ni ar Facebook, dilynwch ni ar Twitter a gwylwch ein ffilmiau ar YouTube am wybodaeth ar gyllid myfyrwyr.




www.studentfinancewales.co.uk

www.cyllidmyfyrwyr.cymru.co.uk

 facebook/SFWales

 twitter/SF_Wales

 youtube.com/SFWfilm

Fy nodiadau...

Visit ucas.com/parents
for more information

UCAS

Parent Guide

Everything you need to know about
your child's journey to university or college

2017



© UCAS 2016

All rights reserved.
UCAS is a registered trade mark.

